08 Gorffennaf 2022

Annwyl

**ATISN 16403 HEFCW – Comisiynu Ymchwil**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 15 Mehefin. Gofynnwyd am yr wybodaeth a ganlyn:

Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch a yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) wedi comisiynu ymchwil i gost darpariaeth addysg Gymraeg ac a yw hefyd wedi comisiynu ymchwil debyg i gost darpariaeth addysg Saesneg. Gofynnwyd hefyd ai Ysgol Economeg Llundain fyddai'n gwneud y gwaith hwn a beth fyddai'r gost i drethdalwyr Cymru.

**Ein hymateb**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar yr wybodaeth y gofynnwyd amdani gennych, ond mae'n bosibl y bydd ar gael gan HEFCW. Dylech gysylltu â HEFCW yn uniongyrchol ar e-bost: info@hefcw.ac.uk

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon ar y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad hwn: Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu'r cyfeiriad e-bost: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu fewnol ni.

Yn gywir